# Pecyn Cyhoeddus

Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y Cabinet** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar **Ddydd Mawrth, 3 Hydref 2023**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm Dydd Iau, 5 Hydref 2023. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Dydd Iau, 12 Hydref 2023 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 13 Hydref 2023.

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Keith Henson, Wyn Thomas, Matthew Vaux ac Alun Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Keith Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Gareth Lloyd a Caryl Roberts.

(10.00am- 11.53am)

**76 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Gareth Davies am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**77 Materion Personol**

Cydymdeimlwyd â Nerys Lewis, Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaethau Uniongyrchol a'i theulu ar golli ei thad.

**78 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

Datganodd y Cynghorydd Keith Henson fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 84 a 90.

**79 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 5 Medi 2023 yn gywir.

Materion yn codi: Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

**80 Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd**

Dim.

**81 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

Dim.

**82 Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda**

Dim.

**83** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Y Strategaeth Dai - amlinellu gweledigaeth a chynlluniau Ceredigion ar gyfer tai yn y sir dros y 5 mlynedd nesaf gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

PENDERFYNIAD:

1) Derbyn yr ychwanegiadau i'r Strategaeth Dai ddrafft y cyfeirir ati yn yr adroddiad.
2) Argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Strategaeth Dai.
3) Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*

Er mwyn caniatáu i'r Cyngor gyflawni'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r swyddogaeth dai strategol.

**84** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal ynghylch Canlyniad Cynllun Gweithredu Dementia Ceredigion gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

PENDERFYNIAD:

- Creu Grŵp Datblygu Dementia Integredig Ceredigion i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r cynllun gweithredu.
- Rhannu canfyddiadau cychwynnol yr ymgysylltu gyda'r cyhoedd, a datblygu Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu gan sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r cynnydd parhaus mewn perthynas â chyflawni'r cynllun gweithredu.
- Rhoi adroddiad Cynnydd Blynyddol i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.
- Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*

Cefnogi a datblygu dull integredig o ddiwallu anghenion unigolion sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr drwy amrywiaeth o adnoddau iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector.

**85** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol**

PENDERFYNIAD:

Cadarnhau enwebu'r sawl a enwir yn yr adroddiad yn gynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol yr Ysgolion perthnasol.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*

Enwebu cynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol.

**86** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Offeryn Asesiad Effaith Integredig diwygiedig gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

PENDERFYNIAD:

1. Cymeradwyo'r offeryn Asesiad Effaith Integredig diwygiedig.
2. Bod gweithdy yn cael ei drefnu ar gyfer Aelodau Etholedig i egluro'r offeryn a'i bwysigrwydd yn y broses o wneud penderfyniadau.

3. Nodi adborth y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Mae'r offeryn Asesiad Effaith Integredig diwygiedig yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol a bydd yn galluogi proses benderfynu ar sail gwybodaeth.

87 **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad drafft a Fframwaith Rheoli Perfformiad gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
PENDERFYNIAD:

1. Cymeradwyo’r Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad a’r Fframwaith Rheoli Perfformiad.
2. Nodi adborth y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Mabwysiadu Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad diweddaredig a Fframwaith Rheoli Perfformiad sy’n amlinellu’r prif egwyddorion ar gyfer rheoli perfformiad yn y Cyngor.

88 **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-23 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
Nodwyd yr adroddiad a’r adborth o’r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu.

89 **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch y Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft Ceredigion 2024-28 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
PENDERFYNIAD:

1) Cymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft 2024-28.
2) Cymeradwyo ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Drafft dros y gaeaf 2023.
3) Nodi adborth y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Bydd hyn yn datblygu nod y Cyngor o fynd i’r afael ag anghydraddoldeb, cael gwared â gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig a’r rheini nad ydynt yng Ngheredigion.

90 **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Pobl a Threfniadaeth ynghylch Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2023 ac Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu 2023 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
Nodwyd yr adroddiad a’r adborth o’r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu.

**91** **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Chwarter 4 2022/23 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

Nodwyd yr adroddiad a'r adborth o'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu.

**92** **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 4 2022 - 2023 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

Nodwyd yr adroddiad a'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

**93** **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet**

Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2023**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:_________________**